**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Llun, 16eg Medi, 2024 at 10.00 am**

**PRESENT:** P. Easy (Cadeirydd)

R. Price, A. Blackmore, M. John, R Williams-Flew, M. Gibson

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Nicola Perry | Uwch Swyddog Democratiaeth |

**APOLOGIES:**

Councillors Frances Taylor and Catherine Fookes

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Dim

2. **Minutes of previous meeting**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Mehefin 2024 yn gofnod cywir. Wrth wneud hynny, nodwyd bod y canlynol wedi'u hepgor ac y dylid eu hychwanegu at y cofnodion:

Cydnabu'r Pwyllgor waith Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Safonau, Richard Stow, a'i wasanaeth hir ar y Pwyllgor.

3. **Llythyr Blynyddol gan PSOW 2023/24**

Derbyniodd y Pwyllgor y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023/24.

Nodwyd mai cynnydd bach sydd wedi bod yn nifer y cwynion neu'r cyswllt gyda'r Omdudsman o'i gymharu â llynedd. Dim ond dwy o'r cwynion oedd yn gwynion cod ymddygiad, penderfynwyd peidio ag ymchwilio i un ohonynt ac roedd yn destun gwrandawiad diweddar Panel y Pwyllgor Safonau.

Mynegwyd pryder bod MCC yn un o'r awdurdodau sydd ar waelod y rhestr o ran argymhellion wedi'u cyflawni ar amser, er mai dim ond 4 oedd angen ymdrin â hwy. Cyfeiriwyd at hyn yn y llythyr a thynnwyd sylw hefyd at y ffaith yr ymgynghorir â'r awdurdodau ar amserlenni cyn cyhoeddi'r rhain.

Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro i gymryd hyn fel cam gweithredu a gwneud ymholiadau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

4. **Diweddariad y Cadeirydd: Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgor Cadeiryddion Safonau**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad er mwyn diweddaru aelodau wedi iddo fynychu'r Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau ar 24 Mehefin 2024.

Roedd y Cadeirydd wedi derbyn y nodiadau a sleidiau'r cyflwyniad a byddant yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

Amlygwyd bod esboniad o ran y mater mai proses bapur yn unig yw apeliadau.  Y gobaith oedd y byddai eu gwefan yn cael ei diweddaru i wneud hyn yn glir.

Cytunodd y Swyddog Monitro i wneud ymholiadau ynghylch hyfforddiant Cod Ymddygiad Cyngor Tref a Chymuned, a'u haelodaeth o Un Llais Cymru.  At hyn, penderfynu pa gamau sy'n cael eu cymryd o ran hyrwyddo hyfforddiant safonau mewn Cynghorau Tref a Chymuned.

Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr argymhelliad i nodi cynnwys yr adroddiad.

## 5. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2023/24

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2023/24 ar gyfer ei gymeradwyo cyn adrodd arno i gyfarfod o'r Cyngor.

Nid oedd unrhyw sylwadau, a phenderfynodd y Pwyllgor Safonau dderbyn yr argymhelliad i gymeradwyo'r adroddiad blynyddol drafft.

## 6. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 16 Rhagfyr 2024

Nododd y Pwyllgor ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cynghorydd Sir Catherine Fookes wedi rhoi gwybod iddi ei bod yn ymddiswyddo y bore hwnnw, a bod disgwyl i Arweinydd y Cyngor yn benodi cynghorydd Llafur newydd i'r Pwyllgor Safonau cyn y cyfarfod nesaf.

**The meeting ended at 10.50 am**